# *Cefnogi Newid*: Gwisg Ysgol

Astudiaeth Achos 1

## Gwybodaeth

**Ysgol Gynradd Blaenhonddan, Castell-nedd Port Talbot**

265 o Ddysgwyr
7.4% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim

## Y prif feysydd o dan sylw

- ✓ Cost a fforddiadwyedd
- ✓ Hyrwyddo'r Grant Hanfodion Ysgol
- ✓ Ailgylchu

## Yr Angen a Amlygwyd

Mae cost gwisg ysgol yn ddrud i deuluoedd, yn enwedig i'r rhai sydd â mwy nag 1 plentyn. Mae eitemau gwisg ysgol yn aml yn cael eu colli neu eu gadael yn y lle anghywir ac roedd hynny'n gwneud i ddysgwyr bryderu am ddod i'r ysgol.

## Cost y newid

£100 ar gyfer costau cychwynnol prynu rheiliau dillad. Dim costau parhaus

## Camau a gymerir

- ✓ Bellach, mae gwisg ysgol yn lliwiau'r ysgol **ar gael yn Tesco**
- ✓ Mae'r dysgwyr yn gwisgo crysau t, cardiganau, siwmperi a hwdis **heb logos**
- ✓ Mae **cynllun ailgylchu** yn galluogi teuluoedd i gael gwisg ysgol **am ddim**

## Pwy sy'n cymryd rhan?

- ✓ Dysgwyr
- ✓ Rhieni a gofalwyr
- ✓ Eco-ryfelwr Arweiniol

**Dysgwyr:** Mae 'Eco-ryfelwyr' (dysgwyr) yr ysgol yn helpu i baratoi'r cynllun ailgylchu. Maen nhw'n dal i gyfrannu a helpu i hongian a threfnu'r dillad

**Rhieni / Gofalwyr:** Y rhieni a'r gofalwyr sy'n cyfrannu'r wisg ysgol, sef eitemau ail law, o ansawdd da, sy'n cael eu golchi gan y cyfranwyr cyn eu cyflwyno.

**Eco-ryfelwr Arweiniol:** Mae'n goruchwylio'r ailgylchu, a chaniateir amser iddo/iddi wneud hynny.

## Effaith a chanlyniadau

- ✓ Mae'r wisg ysgol **yn fwy fforddiadwy** gan nad oes angen logos arni
- ✓ Mae'r wisg **ar gael o'r archfarchnad**, sy'n ei gwneud yn fwy fforddiadwy
- ✓ Sylwadau'r rhieni ynghylch pa mor **ddefnyddiol** yw cael mynediad at wisg ysgol ail law
- ✓ Mae pob plentyn yn **gwisgo lliwiau'r ysgol**

## Y rhwystrau a gafodd sylw

Roedd angen galluogi rhieni a'u hannog i deimlo bod dillad ail law yn dderbyniol.

## Cyngor i ysgolion eraill

Rhowch y dillad mewn man hygyrch, i ffwrdd o'r staff, a sicrhau mynediad cyson atynt. Mae ein dillad ni ar gael trwy'r dydd bob dydd Gwener, mewn cysgodfan ar yr iard.

## Eisiau gwybod mwy?

Gallwch gysylltu â'r ysgol i gael rhagor o wybodaeth am y dull gweithredu:
majorG4@hwbcymru.net

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES